

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2025-26

1. Cyflwyniad

Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o dan Adran 54, rhan 6 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (MSA); ac mae'n cynnwys y gweithgareddau a gynhaliwyd yn y ddeuddeg mis diwethaf a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2026.

2. Strwythur sefydliadol, busnes a chadwyni cyflenwi

CITB yw'r Bwrdd Hyfforddi Diwydiant ar gyfer Adeiladu ac mae'n un o ddau Fwrdd Hyfforddi Diwydiant sy'n weddill ac a sefydlwyd o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiant 1964. Pwrpas statudol CITB yw: "Darparu gwell hyfforddiant i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol ar gyfer gweithio mewn unrhyw ran o'r diwydiant."

Ariennir CITB gan Lefi statudol ar gyflogwyr cymwys sy'n gweithredu yn y diwydiant adeiladu, a'i bwrpas strategol yw: "Cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol."

Mae'r CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SCO44875) gyda'i bencadlys yn Peterborough, Swydd Gaergrawnt. Mae'n darparu gwasanaethau hyfforddi o dri safle, sef y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) yn Bircham Newton, Norfolk; Erith, Llundain; ac Inchinnan, Glasgow; ac yn ogystal trwy wasanaethau a gomisiynwyd gan golegau yn y sector cyhoeddus a darparwyd hyfforddiant yn y sector preifat.

Mae'r CITB hefyd yn cael ei ddosbarthu fel Corff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB) ac yn Gorff sy'n Gweithredu'n Annibynnol (ALB) o dan yr Adran Addysg (DfE). Mae'r CITB wedi cytuno â'r DfE i barhau i gyhoeddi ei Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern ('MSS') blyneddol ei hun yn hytrach na chael ei gynnwys yn y Datganiad Gweinidogol a gyhoeddir ar gyfer y DfE.

Mae gan CITB tua 300 o gontractau gweithredol, gyda gwariant blyneddol o £60m; mae'r pum eitem o wariant fwyaf yn 2024-25 yn ymwneud â'n trefniant partneriaeth alluogi ar gyfer gwasanaethau busnes a chorfforaethol, darparu canolfannau profi lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, llety i brentisiaid, gwasanaethau arlwy, glanhau a diogelwch, ac argraffu. Bydd y berthynas â'r Partner Alluogi yn dod i ben erbyn mis Hydref 2026. Mae'r rhan fwyaf o'n cyflenwyr Haen 1 wedi'u cofrestru yn y DU, ond mae llawer o'r gweithrediadau a'u cadwyni cyflenwi yn fyd-eang. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oes gennym wybodaeth am leoliadau ein cadwyn gyflenwi Haen 2, ac eithrio'r rhai sy'n perthyn i'n categorïau risg ganolog ac uchel.

Mae Tîm Masnachol, Caffael a Chontractau'r CITB yn gyfrifol am gaffael nwyddau a gwasanaethau. Maent yn sicrhau bod yr holl ofynion perthnasol yn cael eu cymhwyso'n briodol, fel y nodir yn y Nodiadau Caffael Cyhoeddus (PPNs) – megis PPN 009 wedi'i ddiweddarau (*Canllawiau ar fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng nghadwyni cyflenwi'r llywodraeth*) a PPN 002 (*Ystyried gwerth cymdeithasol wrth ddyfarnu contractau llywodraeth ganolog*), sy'n ymdrin â mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y gweithlu a chaethwasiaeth fodern. Gweithredwyd unrhyw newidiadau oherwydd Deddf Caffael Cyhoeddus 2023 newydd a gofynion Trawsnewid Caffael Cyhoeddus (TPP) o fis Chwefror 2025 ymlaen.

Mae Tîm Masnachol a Chontractau CITB wedi cryfhau'r gofynion ynghylch caethwasiaeth fodern mewn dogfennau tendro a chontractau, ac wedi datblygu set o gwestiynau model perthnasol ar werth cymdeithasol y mae'n rhaid eu cynnwys ym mhob caffaeliad sy'n uwch na'r trothwy o 1 Hydref 2025 ymlaen.

Cyfanswm gwariant CITB yn 2025-26 oedd £288m, a chyflogodd gyfartaledd o 1,075 o weithwyr (982 wedi'u cyflogi'n uniongyrchol a 93 dros dro) ar draws Prydain Fawr yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gan CITB nifer uchel o weithwyr symudol, ochr yn ochr â'r rhai sy'n gweithio yn y Pencadlys a'r NCC, ac mae unrhyw staff dros dro sydd eu hangen drwy gydol y flwyddyn yn cael eu recriwtio drwy *Brook Street, Hays, Michael Page, Pertemps Rise Technical*, pob un wedi'u caffael drwy fframwaith caffael cymeradwy'r Llywodraeth.

Rheolwr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) CITB yw'r pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau caethwasiaeth fodern, ac maent yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, gyda phwy y mae atebolrwydd gweithredol am yr amgylchedd a chynaliadwyedd (gan gynnwys caethwasiaeth fodern) yn eistedd.

Y ddau brif undeb sy'n cynrychioli gweithwyr yn CITB yw *Unite* a *GMB*, er bod y mwyafrif sylweddol o weithwyr yn cael eu cynrychioli gan eu rheolwyr. Mae cytundeb ar waith sy'n sefydlu'r egwyddorion cyffredinol a'r ffyrdd o weithio rhwng y partion.

3. Polisiâu mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl

Mae gan CITB sawl polisi sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, sef:

- Polisi Caffael a Rheoli Contractau – Mae hwn yn amlinellu dull y CITB o gyrchu ei anghenion allanol, gan gynnwys ei gydymffurfiaeth â rheolau caffael cyhoeddus, y trothwyon ariannol ar gyfer gwahanol fathau o gaffael, a'i ddull o ddefnyddio busnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol. Mae hefyd yn cael ei arwain gan ofnion Deddf Caffael Cyhoeddus 2023 y mae'n rhaid i'r CITB gydymffurfio â nhw. Mae mwyafrif gweithgaredd caffael y CITB yn cael ei wneud trwy fframweithiau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth (trwy Asiantaeth Fasnachol y Llywodraeth (GCA), *London Universities Purchasing Consortium* (LUPC), a *Eastern Shires Purchasing Organisation* (ESPO)), sydd â rhagofynion ar gyflenwyr i gadw at arferion da sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern. Lle mae contractau'r CITB yn cyfarwyddo, mae ei delerau ac amodau safonol ar gyfer cyflenwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal hawliau dynol a llafur ac atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn eu gweithrediadau a'u cadwyni cyflenwi eu hunain. Adolygwyd a diweddarwyd y Polisi ddiwethaf ym mis Chwefror 2025 ac mae'n ymgorffori'r gofynion newydd a nodir yn y rhaglen Trawsnewid Caffael Cyhoeddus.
- Polisi Datgelu Gwarchodedig (Chwythu'r Chwiban) – Mae hwn yn rhoi manylion am y dull o adrodd am unrhyw bryderon (gan gynnwys rhywun a allai fod mewn perygl o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl), sut y bydd y rhain yn cael eu trin, a diogelu 'datgelwyr'. Cafodd y Polisi ei adolygu, ei ddiweddarau a'i gymeradwyo ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2026.
- Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Pharch – Mae hwn yn manylu ar ymrwymadau ac arferion y CITB i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg, gyda pharch ac yn sicrhau bod y CITB yn lle cynhwysol i weithio. Cafodd y Polisi ei adolygu a'i gymeradwyo ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2026.

- Recriwtio – Mae CITB yn gweithredu swyddogaeth Caffael Talent bwrpasol i oruchwylio a chefnogi gweithgareddau recriwtio ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i ymgeiswyr a'u dewis, rheoli prosesau ymsefydlu a chynefino, a sicrhau bod gwiriadau a dogfennaeth cyflogaeth allweddol yn cael eu cwblhau, megis gwirio hawl i weithio a chontractau cyflogaeth. Er mwyn cryfhau sicrwydd, mae CITB wedi penodi darparwr arbenigol allanol ar gyfer gwirio cefndir ymgeiswyr ac wedi dod â'r broses recriwtio gyfan yn fewnol, yn dilyn y trefniant allanoli blaenorol gyda SSCL. Mae canllawiau ac adnoddau ategol ar gyfer rheolwyr sy'n recriwtio ar gael trwy dudalennau *SharePoint* - 'People'.
- Dyfarniad Cyflog – Cynhelir ymarfer meincnodi blynyddol i lywio'r broses dyfarnu cyflog, gan weithio ar y cyd ag undebau llafur a chynrychiolwyr rheoli.
- Polisi Gweithredol Diogelu – Mae CITB yn cynnal trefniadau diogelu cadarn i helpu i sicrhau diogelwch a lles plant, pobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl a gweithwyr. Wrth wneud hynny, rydym yn defnyddio arferion gorau cydnabyddedig ym maes diogelu ac yn cydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys y canllawiau *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* (KCSIE) lle bo hynny'n berthnasol. Cadarnhawyd y trefniadau hyn gan archwiliad cadarnhaol gan Ofsted o'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol ym mis Ionawr 2026, lle na nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â recriwtio mwy diogel. Cymeradwywyd y polisi hwn ddiwethaf gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2025 a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Hydref 2026.
- Polisi Gweithredol Recriwtio Mwy Diogel – Mae'r polisi hwn yn nodi'r arferion a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn addas i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Mae'n cefnogi diogelu'r grwpiau hyn rhag niwed, yn unol â Pholisi Gweithredol Diogelu CITB, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion recriwtio mwy diogel ar gyfer gweithgareddau rheoleiddiedig yn Lloegr a'r Alban. Cymeradwywyd y polisi ddiwethaf ym mis Medi 2024 a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Medi 2026.
- Gweithdrefn Cwynion – Mae hyn yn rhoi ffordd i bartïon allanol adrodd am bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern mewn perthynas â gweithrediadau busnes CITB, ac mae ar gael ar wefan CITB. Os codir pryder, ac os yw'r person sy'n cwyno yn teimlo nad yw'r mater wedi'i ddatrys i'w foddhad, gallant fynd â'r mater ymhellach trwy gysylltu â'u Haelod Seneddol, neu Ombwdsmon Seneddol (Lloegr a Chymru) neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (yr Alban).

Mae'r holl bolisiau ar gael ar dudalennau *Sharepoint* CITB (a elwir yn *Connected*) i weithwyr eu gweld. Bydd polisiau pellach yn cael eu datblygu os oes angen.

Os na fydd gweithwyr yn cydymffurfio ag unrhyw un o bolisiau CITB, gall hyn arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys cosbau hyd at a chan gynnwys diswyddo. Goruchwylir y broses ar gyfer datblygu, cymeradwyo a pherchnogaeth polisiau ar draws y sefydliad gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth.

4. Asesu, atal a lliniaru risg

O'i gymharu â 2024-25, nid yw CITB wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i natur y cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael, ac mae'n parhau i gcontractio â busnesau cydnabyddedig sydd wedi'u cofrestru yn y DU. O ganlyniad, mae CITB yn parhau i asesu bod y risg o gaethwasiaeth fodern ar draws ei weithrediadau busnes yn isel.

Mae gweithgaredd twyllodrus yn parhau i fod yn un o risgiau strategol corfforaethol allweddol CITB, gyda chysylltiadau posibl â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Er mwyn lliniaru'r risg hon, gweithredwyd mesurau monitro uwch, gan gynnwys goruchwyliaeth ar lefelau Gweithredol ac ar lefel y Bwrdd. Yn ogystal, mae risg strategol o niwed i brentisiaid, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed oherwydd absenoldeb neu

fethiant trefniadau diogelu priodol. Mae Tîm Diogelu pwrpasol yn monitro'r trefniadau ac unrhyw ddigwyddiadau, ac mae gweithrediad cyffredinol y broses yn cael ei fonitro gan Bwyllgor yr NCC a Phrentisiaethau ar ran y Bwrdd. Mae CITB yn parhau i ddal Gwobr 'Leaders in Safeguarding' ar gyfer Lloegr a'r Alban.

Adolygwyd yr asesiad risg o gyflenwyr Haen 1 CITB gan Bennaeth Masnachol, Caffael a Rheoli Contractau CITB i weld pa gontractau a ystyriwyd yn rhai risg uchel, sef: y rhai oedd â dau neu ragor o ffactorau risg perthnasol.

Y ffactorau risg a gymhwyswyd yw: Math o Ddiwydiant, Nwyddau/Gwasanaethau, Lleoliad y Cyflenwr, Modelau Cadwyn Gyflenwi Busnes, Natur y Gweithlu, a'r Cyd-destun y mae'r Gadwyn Gyflenwi yn gweithredu ynddo.

Mae gan y CITB bum cyflenwr (sy'n ymdrin â gwasanaethau warysau, arlwyio, glanhau a diogelwch, golchi dillad, offer amddiffyn personol a nwyddau hyrwyddo) a ystyriwyd eu bod yn peri risg ganolig neu uchel oherwydd eu cadwyni cyflenwi eu hunain, a phedwar contract sy'n werth mwy na £5 miliwn. Mae'r CITB hefyd yn caffael offer electronig drwy fframwaith Asiantaeth Fasnachol y Llywodraeth (GCA), lle cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy a rhag-gymhwyso ar gyfer cyflenwyr ar ein rhan.

Mae'r CITB wedi cofrestru i ddefnyddio'r *Modern Slavery Assessment Tool* (MSAT) ac roedd yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer pob caffaeliad newydd a chontractau presennol sy'n ymwneud â chyflenwyr risg ganolig i uchel a chontractau sy'n werth mwy na £5 miliwn. Mae'r cyfraddau cwblhau yn isel iawn, gyda chyflenwyr yn gofyn am anfon eu MSS yn lle hynny.

Mae cymal 40, 'Caethwasiaeth Fodern', o fewn telerau ac amodau safonol contractau nwyddau a gwasanaethau CITB, yn nodi bod gan CITB 'disgresiwn llwyr' ynghylch pa gamau y gall eu cymryd os canfyddir achos o gaethwasiaeth fodern yn ei gadwyn gyflenwi; mae hyn yn cynnwys archwilio pob llwybr posibl ar gyfer gweithredu cyn ystyried terfynu'r contract. Os nodir neu os codir pryder, dylai'r cyflenwr gysylltu â CITB a llinell gymorth Caethwasiaeth Fodern.

Gofynnir i holl gyflenwyr perthnasol CITB baratoi adroddiad blynyddol ar gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, i'w gyflwyno dim hwyrach na'r 1af o Hydref bob blwyddyn, ac yn y dyfodol, i gwblhau'r MSAT (os oes angen).

Rhaid i holl gyflenwyr newydd CITB gydymffurfio bellach â Chod Ymddygiad Cyflenwyr CITB. Mae'r cod hwn yn nodi'r hyn y mae CITB yn ei ddisgwyl gan ei gyflenwyr o ran arferion ac ymddygiad busnes cyfrifol, gan gynnwys hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, ac arferion cyflogaeth da yn gyffredinol.

5. Prosesau Diwydrwydd Dyladwy

Mae Tîm Twyll y CITB yn parhau i gefnogi cyfarfodydd aml-asiantaeth 'Operation Enterprise' a gynhelir gan Heddlu Metropolitan Llundain, gan gynnwys ymateb i geisiadau am wybodaeth a deallusrwydd. Mae Tîm Twyll y CITB hefyd yn aelodau cyswllt o'r rhwydwaith cenedlaethol - *Government Agencies Intelligence Network* (GAIN) - ac yn derbyn ceisiadau rheolaidd am wybodaeth i gefnogi ymchwiliadau asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gaethwasiaeth fodern.

Parhaodd y CITB i gymryd rhan yn Is-grŵp Busnes *Norfolk Anti-Slavery Network* (NASN) nes iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2026. Tynnodd data gan Heddlu Norfolk sylw at achosion o lafur gorfodol yn effeithio ar weithwyr mewn busnesau adeiladu lleol yn y sir, sydd hefyd yn gartref i safle mwyaf yr NCC sy'n eiddo i'r CITB. Archwiliodd trafodaethau

sut y gallai'r CITB helpu i godi ymwybyddiaeth o risgiau caethwasiaeth fodern drwy ei dimau ymgysylltu cenedlaethol a'i rwydweithiau cyflogwyr, gan gefnogi ymdrechion i atal camfanteisio yn y diwydiant.

Mae gan y CITB gyfeiriad e-bost pwrpasol, 'report.it@citb.co.uk', i gydweithwyr yn y diwydiant adeiladu adrodd ar unrhyw amheuaeth ynghylch gweithgaredd twyllodrus posibl. Gall hyn gynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Yn ystod 2025-26, ni adroddwyd am unrhyw achosion newydd drwy'r cyfeiriad e-bost hwn.

6. Effeithiolrwydd, wedi'i fesur yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

Adolygodd y CITB ei fframwaith DPA yn 2023-24 i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn gymesur i gefnogi monitro ac adolygu ei berfformiad wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.

Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr ein contractau risg ganolig ac uchel yn ystod cyfarfodydd adolygu contractau i drafod eu camau gweithredu wrth fynd i'r afael â risgiau caethwasiaeth fodern.

Fframwaith DPA

Dangosyddion Perfformiad Allweddol	Sgôr
1. Canran y gweithwyr gofynnol sy'n cwblhau'r hyfforddiant gorfodol (o Chwefror 26) (heb gynnwys dechreuwyr newydd)	100%
2. Canran yr holl weithwyr Tîm Categori sydd wedi ymgymryd â'r e-ddysgu Caffael a Chyflenwi Moesegol CIPS blynyddol (neu gyfwerth a argymhellir)	100%

7. Hyfforddiant ac adeiladu capasiti

Mae Asesiad Strategol Cenedlaethol 2026 yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol (NCA) yn nodi gweithio anghyfreithlon fel rhan o'i hymateb i droseddau mewnffudo cyfundrefnol ac yn tynnu sylw at weithgarwch ar y cyd â phlisma a Gorfodi Mewnffudo. Mae'r asesiad yn nodi bod grwpiau troseddau cyfundrefnol yn dod yn fwyfwy cydgysylltiedig ac amrywiol, gyda rhwydweithiau troseddol yn camfanteisio ar bobl agored i niwed ar draws sawl math o drosedd. Daw'r asesiad cyffredinol i'r casgliad bod troseddau difrifol a chfundrefnol yn achosi niwed cynyddol i unigolion, cymunedau a'r economi, gyda thechnoleg yn galluogi camfanteisio troseddol ar raddfa fwy.

Mae cwmnïau llai neu unigolion sydd fel arfer yn gweithio ar brosiectau masnachol domestig neu ar raddfa fach yn fwy tebygol o weld model y defnyddiwr terfynol o droseddau, lle mae dioddefwr yn cyflawni gwaith yn uniongyrchol i'r camfanteisiwr. Fodd bynnag, mae'n bron yn sicr mai'r sector adeiladu masnachol fydd yn cyflwyno'r risg uchaf o gael ei heintio gan Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol (OCGs) soffistigedig iawn, lle mae dioddefwyr yn gweithio ar ran y camfanteisiwr neu eu busnes trwy gwblhau gwaith i drydydd parti. Mae bron yn sicr bod hyn oherwydd y galw am weithwyr, diffyg gwiriadau hawl i weithio, potensial am elw uchel o gontractau adeiladu masnachol, a chadwyni cyflenwi cymhleth. Mae'r CITB mewn sefyllfa dda i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl (MSHT) trwy addysgu ei weithlu, ei ddysgwyr a'r diwydiant ehangach, ac mae'n parhau i gefnogi unrhyw ymgyrchoedd cenedlaethol gan yr NCA a bydd yn ceisio cyfleoedd i ymgorffori dysgu yn ein cwricwlwm Prentisiaeth NCC.

Mae'n ofynnol i weithwyr CITB gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol ar Gaethwasiaeth Fodern sydd wedi'i deilwra i'r diwydiant adeiladu ar gylch tair blynedd. Os na chwblheir hyfforddiant gorfodol o fewn yr amser penodedig, hysbysir hyn i'r rheolwr llinell perthnasol a'i drafod gyda'r gweithiwr, gan osod dyddiad targed newydd ar gyfer cwblhau. Rhwng yr adegau hynny, rhennir cyfathrebu ar ddyddiadau ymwybyddiaeth calendr allweddol i gefnogi ac adnewyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y gweithiwr.

Mae aelodau Tîm Caffael CITB yn parhau i ymgymryd â sesiwn adnewyddu flynyddol fel rhan o'u haelodaeth CIPS ar gyfer Caffael Moesegol a Chyflenwyr, sy'n cynnwys caethwasiaeth fodern.

Yn ystod 2025-26, parhaodd Rheolwr Twyll CITB i fynychu'r Grŵp Troseddau Trefnedig Lleol dan arweiniad Heddlu Norfolk, cyfarfod chwarterol a fynychir gan yr heddlu ac asiantaethau partner fel awdurdodau lleol a chynghorau, CThEF, DWP a'r Asiantaeth Gwaith Teg (yr Awdurdod er Atal Cam-drin Gweithwyr gan Feistri Gangiau - GLAA gynt).

Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar:

- Cydweithio â grwpiau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ar fynd i'r afael â MSHT i wneud yr effaith fwyaf cadarnhaol.
- Mae sefydliadau'n trafod mewnwelediadau, arferion gorau, a'r heriau y maent yn eu hwynebu.
- Rhannu data a sut i gasglu gwybodaeth y gellir ei rhannu gyda'r Heddlu a phartneriaid gorfodi'r gyfraith.
- Themâu a dulliau cyfredol MSHT o fewn y gwahanol sectorau.

Yn ystod yr un cyfnod, cefnogodd CITB chwe chais ymchwiliad *Op Enterprise*.

8. Gweithgaredd a Gynlluniwyd ar gyfer 2026-27

Dros y flwyddyn nesaf, mae CITB yn bwriadu:

- Parhau i gefnogi codi ymwybyddiaeth ac argaeledd adnoddau trwy ddefnyddio dyddiadau calendr allweddol, fel Wythnos Gwrth-Gaethwasiaeth.
- Bydd Tîm Gwrth-Dwyll CITB yn parhau i weithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, gan gasglu a rhannu gwybodaeth, mewn perthynas â phrofion adeiladu, cymwysterau, a gwiriadau cardiau, i atal ehangu caethwasiaeth fodern gan OCGs a chyflogwyr gofalus eraill.
- Byddwn yn cyflwyno platfform adrodd dienw 'gweithio'n gyfrinachol', gan alluogi cydweithwyr i leisio barn ar faterion sy'n peri pryder a rhoi'r mewnwelediad i'r tîm arweinyddiaeth weithredu.
- Bydd Tîm Masnachol, Caffael a Chontractau CITB yn cwblhau asesiad risg gan ddefnyddio Offeryn Haenu Risg Gwrth-gaethwasiaeth (ARTT) newydd y Llywodraeth, ac yn mapio'r holl gyflenwyr sy'n peri risg ganolog neu uchel.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr sy'n mynychu'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol fel rhan o'n cwricwlwm Prentisiaethau.

Cymeradwywyd y Datganiad hwn gan Gyfarwyddwyr Pwyllgor Gweithredol CITB ar 29 Medi 2026.



Tim Balcon
Prif Swyddog Gwethredwr
29 Medi 2026